



Eglurhad

Mae gweithio ar draws sectorau a'r system fwyd gyfan yn nodwedd allweddol o ddull Lleodd Bwyd Cynaliadwy. Mae partneriaethau'r SFP yn dangos y cysylltiadau rhwng bwyd, iechyd, y gymuned, tegwch cymdeithasol, yr amgylchedd a ffyniant economaidd, a sut gall y dull hwn gyflawni system fwyd gynaliadwy. Gall dull system fwyd gyfan integredig, gyd-gysylltiedig ddod â phobl a sefydliadau sydd â diddordebau amrywiol at ei gilydd er budd pawb. Mae cyflawni hyn yn dibynnu ar sicrhau cyfranogiad eang a chynrychioliadol yn y bartneriaeth ac wrth ddatblygu strategaeth bwyd lleol. Bydd y canllawiau **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** a **Grwpiau Llywio** yn eich helpu i nodi pwy i'w cynnwys yng nghamau cychwynnol sefydlu partneriaeth a sut i'w cynnwys, ond y cam nesaf yw cynyddu cyfranogiad a datblygu momentwm.

Mae'r canllaw hwn ar **Uwchgynadleddau Bwyd** yn cynnig ambell awgrym a allai helpu i ehangu cyfranogiad, ysgogi rhanddeiliaid o bob rhan o'r system bwyd lleol a dechrau ychwanegu manylion a strwythur i'r strategaeth fwyd.

Cyflwyniad

Digwyddiadau yw **Uwchgynadleddau Bwyd** sy'n anelu at ddod â rhanddeiliaid y system fwyd at ei gilydd, am hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan, i ddechrau rhannu safbwyntiau gwahanol ar faterion a syniadau er mwyn mynd i'r afael â nhw gyda'ch gilydd.

O'u trefnu, eu strwythuro a'u hwyluso'n dda, gall Uwchgynadleddau Bwyd annog a chefnogi cydweithio rhwng y gwahanol unigolion a sefydliadau dan sylw a rhoi cyfle i dathlu pwysigrwydd a chyfoeth y system bwyd lleol. Mae aelodau'r SFP wedi defnyddio amrywiaeth o wahanol ffyrdd i fynegi pwrpas eu Huwchgynadleddau Bwyd, gan gynnwys:

- 'Galwad i weithredu'
- Archwilio 'Pwy sy'n bwydo ein dinas'
- Sgwrs am 'Gyflwr presennol ein system bwyd lleol'

Gall canlyniadau Uwchgynhadledd Fwyd gynnwys addysg, gweithredu, clymbleidiau a phrosiectau yn ogystal â pherthnasoedd newydd rhwng unigolion o wahanol rannau o'r system fwyd, fel ffermwr a thŷ bwyta. Fel arfer, mae 50-70 o gyfranogwyr yn cymryd rhan yn Uwchgynadleddau Bwyd y SFP.

Pwy i'w gwahodd?

Meddylwch am eich system bwyd lleol a'r holl ffyrdd y mae pobl yn derbyn, yn tyfu ac yn dysgu am fwyd. Meddylwch am yr holl gyfranogwyr boed yn ffermydd, prosiectau, busnesau, y sector cyhoeddus, grwpiau cymunedol, cymdeithasau tai, prifysgolion, sefydliadau nid-er-elw,

cynrychiolwyr llywodraeth leol. Dyma eich cyfle i gael yr holl randdeiliaid allweddol i ddechrau meithrin perthynas â'i gilydd ac i weld eu rôl yn y system fwyd ehangach. Mae bron pob adran o fewn awdurdod lleol yn ymwneud â'r agenda fwyd mewn ryw ffordd, ond mae'n debyg mai'r rhai allweddol yw: cynllunio, iechyd y cyhoedd, cynaliadwyedd / newid hinsawdd, datblygu economaidd, caffael, gwastraff, ymgysylltu â'r gymuned, iechyd yr amgylchedd a marchnadoedd. Mae'n ddefnyddiol lawrlwytho cyfeirlyfrau rhanddeiliaid allweddol a chreu rhestr wahodd gynhwysfawr gan gynnwys cynifer o onglau â phosib ar yr agenda.

Pwrpas

Mae Uwchgynhadledd Fwyd yn ymwneud â meithrin dealltwriaeth, perthnasoedd a pherchnogaeth o weledigaeth am system fwyd gynaliadwy, teg, iach a ffyniannus. Mae'n ymwneud ag adeiladu ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, gan greu ymdeimlad cytûn o ble rydych yn mynd ac ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd am gyrraedd yno.

- Dod â phobl a sefydliadau sydd â diddordeb brwd **at ei gilydd**
- **Dathlu'r** diwylliant bwyd lleol
- **Codi ymwybyddiaeth** o bwy sy'n gwneud beth
- **Ennyn diddordeb a rhoi ysbrydoliaeth** ar gyfer strategaeth a phartneriaeth fwyd
- **Deall** safbwyntiau gwahanol ar faterion bwyd allweddol, themâu a chamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw
- **Lansio'r cysyniad** o bartneriaeth fwyd a strategaeth fwyd
- Pennu **cenhadaeth, nodau, canlyniadau a dulliau gweithredu**
- Dechrau **nodi camau gweithredu** – rhai sy'n bodoli'n barod a rhai newydd

Gall ffyrdd o gyflawni hyn gynnwys:

- **Cyflwyniadau** sy'n dangos pwy sy'n gwneud beth a ble
- **Astudiaethau achos** o weithredu bwyd lleol llwyddiannus
- **Ysbrydoliaeth** wrth Ddinasoedd/Lleoedd Bwyd Cynaliadwy eraill
- **Mapio** perthnasol: Cyrff statudol / Busnesau bwyd lleol / Prosiectau bwyd / Unigolion brwdfrydig a gweithgar (Gweler adnodd [Mapio System Fwyd](#))
- **Nodi materion bwyd lleol allweddol** a phryderon:
 - Straeon o lwyddiant lleol
 - Meysydd lle ceir dadlau a phynciau llosg
 - Bygythiadau i'r economi fwyd leol
 - Prif bynciau a meysydd o angen
 - Dechrau **nodi themâu allweddol**, meysydd gwaith a gweithgareddau a chamau y gellir eu cymryd – gweithgareddau a awgrymir i fynd i'r afael â'r prif faterion – ac ystyried sut mae'r rhain yn cyd-fynd â **6 thema Gwobrau'r SFP**.
- **Sefydlu is-grwpiau/gweithgorau** i ganolbwyntio ar themâu/pynciau penodol a gwahanol.
- **Nodi bylchau** – pwy sydd ar goll?
- **Rhannu a dathlu cynnyrch lleol**

Rhaglen

Buddsoddwch amser yn cynllunio rhaglen a fydd yn hwyluso cyfranogiad. Mae'n ddefnyddiol fframio'r uwchgynhadledd o gwmpas 3 neu 4 cwestiwn allweddol y mae angen eu hateb. Mae enghreifftiau o'r rhain mewn print trwm yn yr **Enghreifftiau** isod. Bydd y cwestiynau hyn yn arwain cyflwynwyr a chyfranogwyr drwy'r sesiwn.

Mae hefyd yn bwysig rhoi amser i rwydweithio'n anffurfiol – mae hyn yn aml yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gyfranogwyr.

O ran dewis siaradwyr - dewch o hyd i rywun a all ysbrydoli a fframio'r diwrnod yn iawn ar gyfer eich prif slot. Does dim angen cyflwyniad arnoch chi ar ddata manwl o'r system bwyd lleol ar y pwynt yma. Os ydych eisiau rhoi'r wybodaeth hon i gyfranogwyr, gellid darparu ystadegau allweddol ar daflen frifffio wedi'i hargraffu yn lle hynny e.e. ystadegau ar fwyd ac iechyd, y defnydd o fanciau bwyd, tlodi bwyd, gordewdra, busnesau bwyd, defnydd tir etc.

Bydd union raglen eich uwchgynhadledd fwyd yn dibynnu ar ble rydych chi arni o ran y broses o ddatblygu eich strategaeth fwyd ac adeiladu eich partneriaeth fwyd. Bydd angen ei theilwra i'r union bwynt rydych chi arno, p'un a ydych yn dod â phobl at ei gilydd am y tro cyntaf, neu os ydych yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud neu'n adnewyddu hen strategaeth fwyd.

Bydd amseriad yr Uwchgynhadledd Fwyd hefyd yn dibynnu ar eich nodau. Mewn rhai enghreifftiau, mae'r Uwchgynhadledd Fwyd wedi'i defnyddio i adeiladu momentwm cychwynnol a dechrau'r broses o ddatblygu strategaeth fwyd ac adeiladu partneriaeth fwyd. Serch hynny, mae Uwchgynhadleddau Bwyd eraill wedi'u cynnal yn dilyn **Mapio System Fwyd, Arolygon Bwyd** neu **Fapio Bwyd Cymunedol** cychwynnol i gael dealltwriaeth glir o'r system fwyd a safbwyntiau rhanddeiliaid bwyd gwahanol. Yn yr enghreifftiau hyn, mae'r Uwchgynhadledd Fwyd yn anelu at gadarnhau'r canfyddiadau cychwynnol a dod o hyd i weledigaeth gyffredin gan grŵp eang o gyfranogwyr sy'n rhanddeiliaid. I gloi, gall Uwchgynhadledd Fwyd hefyd fod yn werthfawr wrth adfer partneriaeth fwyd ac adnewyddu strategaeth fwyd.

Mae'r ddwy enghraifft isod yn disgrifio **Uwchgynhadledd Fwyd Camau Cyntaf** ac **Uwchgynhadledd Fwyd wedi'i Hadnewyddu**.

Rhaglen Uwchgynhadledd Fwyd Camau Cyntaf

1. CWESTIYNAU RHAGARWEINIOL

Wrth i gyfranogwyr gyrraedd a setlo - i greu ffocws - dangoswch ac anogwch y cyfranogwyr i ychwanegu sgwariau 'post-it' at y siartiau.

Map System Fwyd:

Gweithgaredd bwyd yn y ddinas a'r cyffiniau ... PWY sy'n gwneud BETH, BLE a PHAM? (Pwy yw'r rhanddeiliaid allweddol, ble mae bwyd yn cael ei dyfu'n lleol, sut mae bwyd yn cael ei dyfu, ei brosesu, ei werthu, ei ddefnyddio a'i waredu? Beth yw'r llwyddiannau lleol allweddol a'r profiadau positif?)

Siart Pynciau Llosg: (defnyddio delwedd o'r fatsien yn llosgi)

Bwyd yn y ddinas a'r cyffiniau ... Beth yw'r PYNCIAU LLOSG?

2. CROESO A CHYFLWYNIAD

(Cadeirydd neu gydlynnydd y bartneriaeth fwyd)

- Pwrpas, dull, agenda
- Trafodaeth ragarweiniol – trowch at rywun sy'n agos atoch chi a thrafodwch eich ymatebion i'r cwestiwn Pynciau Llosg am 5 munud – gofynnwch yn gyflym i rai pobl rannu eu trafodaethau gyda'r grŵp cyfan

3. CYSYLLTIAD

- Sesiwn wedi'i hwyluso – Continwrm (llinell sbectrwm) ar draws yr ystafell, ar un pen, ysgrifennwch CYD-GYSYLLTIEDIG IAWN ac ar y pen arall DDIM YN GYD-GYSYLLTIEDIG O GWBL.
- Gofynnwch i gyfranogwyr sefyll ar y llinell a thrafodwch mewn parau ac yna fel grŵp

Gweithgaredd bwyd yn y ddinas a'r cyffiniau

Yn eich barn chi, pa mor gyd-gysylltiedig yw e?

(Pa mor dda y mae'r system bwyd lleol wedi'i chysylltu? Pam ei fod wedi'i chysylltu'n dda / heb ei chysylltu'n dda? Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn? Beth allai gefnogi a hwyluso mwy o gydweithio a dull mwy cyd-gysylltiedig? Beth allai partneriaeth fwyd ei gwneud?)

4. YSBRYDOLIAETH AC EGLURHAD SFP

- Cyflwyniad gan bartneriaeth SFP o rywle arall neu gan aelod o dîm craidd rhaglen y SFP
- Fel arall, cyflwyniad gan ymgyrchydd bwyd lleol neu brosiect sy'n canolbwyntio ar gydweithio a dulliau o weithio mewn partneriaeth ar draws y system fwyd gyfan

5. MATERION LLEOL

- Sesiwn wedi'i hwyluso – siart Darlun Bras ('map meddwl' neu 'siart gwe pry cop' anodedig)

Beth yw'r materion bwyd lleol allweddol?

- Mae pawb yn unigol yn ysgrifennu ar sgwariau 'post-it' ar wahân ar gyfer materion ar wahân
- Ychwanegwch y sgwariau 'post-it' at y siart
- Trafodwch a nodwch themâu a blaenoriaethau cyffredin a'u clystyru gyda'i gilydd
- Rhowch bennawd cryno i bob clwstwr
- Os yw'n bosib, trafodwch a phenderfynwch pa rai yw'r materion pwysicaf/o flaenoriaeth uchaf

6. YSBRYDOLIAETH

- Cyflwyniad
- Aelod o'r SFP o ddinas/lle arall neu ysbrydoliaeth leol

7. CAMAU GWEITHREDU

- Sesiwn wedi'i hwyluso – anodiad pellach i'r siartiau Darlun Bras

Pa gamau fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hyn?

- Ychwanegwch at y siartiau gwreiddiol sydd wedi'u clystyru ac yn thematig
- Nodwch beth sydd eisoes yn digwydd i fynd i'r afael â'r materion a beth sydd ar goll / ddylai fod yn digwydd
- Trafodwch a phenderfynwch ar flaenoriaethau a chyfrifoldebau
- Sut gellir mynd i'r afael â'r materion / pryderon? pa un o'r rhain yw'r flaenoriaeth fwyaf? Pwy ddylai gymryd rhan?

8. CAMAU NESAF

- Trafodaeth agored:
- Beth sydd angen digwydd: nawr, yn fuan, nes ymlaen
- Pwy sydd angen gwneud beth?
- Beth allwch chi ei wneud?

7. GORFFEN

Rhaglen Uwchgynhadledd Fwyd wedi'i Hadnewyddu

1. CROESO

(Aelod Cabinet Awdurdod Lleol)

- Diolch a chroeso
- Pam rydyn ni yma a beth rydyn ni'n gobeithio ei gyflawni

2. SUT RYDYN NI'N GWNEUD?

(Cydlynnydd SFP)

- Hanes partneriaeth fwyd
- Cydnabod yr hyn sydd wedi'i gyflawni'n barod
- Cydnabod bod angen i ni:

Ehangu ymgysylltiad a chyfranogiad

Sicrhau bod y bartneriaeth yn gwbl gynrychioliadol o'r system bwyd lleol

Sefydlu ymdeimlad cryfach o ran-berchnogaeth

Sicrhau eich bod yn teimlo mai eich cynllun bwyd chi yw hwn, ac

Annog cydweithio

I gyflwyno'r cynllun bwyd sy'n gwireddu'r weledigaeth ac yn cyflawni nodau'r cynllun

Cynllun Dinas Bwyd Cynaliadwy – Gweledigaeth (enghraifft):

... dinas lle mae bwyd da ar gael i bawb, sy'n golygu pobl iach, cymunedau ffyniannus ac amgylchedd cynaliadwy.

3. LLEOEDD BWYD CYNALIADWY

SFP – Cyflwyniad

- Rhwydwaith/Gwobrau'r SFP - sut mae'n cyd-fynd â'r cyd-destun lleol
- Enghreifftiau o waith ysbrydoledig gydag aelodau eraill o'r SFP

4. PAM MAE'R CYNLLUN BWYD YN BWYSIG

Arweinydd y Cyngor – Prif Siaradwr

- Pam mae Cynllun Dinas Bwyd Cynaliadwy yn bwysig
- Beth mae'n ei olygu i'r Ddinas
- Pam mae e/hi yn ei gefnogi a'i hyrwyddo

5. CYFLWYNIADAU'R IS-GRŴP

- Cyflwyniadau byr 2 funud gan gadeiryddion y gweithgorau i egluro'r prif ffocws
- Eglurwch beth fydd yn digwydd ar ôl yr egwyl gyda'r gweithfannau

EGWYL A RHWYDWEITHIO

7. BETH SYDD ANGEN DIGWYDD?

Sesiwn wedi'i hwyluso

- 5 thema'r gweithgor
- Wedi'i sefydlu fel 5 gweithfan o amgylch yr ystafell:

1. Iechyd a Lles
2. Mudiad Bwyd Da
3. Gwastraff Bwyd /Newid Hinsawdd
4. Economi Fwyd
5. Caffael

- Bydd cadeirydd yr is-grŵp yn gweithredu fel hwylusydd ym mhob gweithfan
- Penodi 'gohebydd crwydrol' i symud o gwmpas yr holl weithfannau yn ystod y sesiwn hon

Ym mhob gweithfan:

- Trosolwg byr gan yr hwylusydd/cadeirydd yr is-grŵp
- Trafodwch gwestiwn yr is-grŵp
- **YMATEBION** unigol ar sgwariau 'post-it'
- Rhowch y themâu cyffredin mewn **CLYSTYRAU**
- Rhowch **BENNAWD** i bob thema

CWESTIYNAU ar gyfer pob clwstwr:

- Pa **DDULLIAU A GWEITHGAREDDAU CYFREDOL** sy'n helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd?
- Pa **DDULLIAU A GWEITHGAREDDAU ERAILL SY'N CAEL EU HAWGRYMU** a allai helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol?
- **PWY** sydd angen gwneud **BETH** i wireddu hyn?
- Pa ddulliau a gweithgareddau yw'r **FLAENORIAETH FWYAF** ar gyfer y 3 blynedd nesaf?

Symudwch o gwmpas yr ystafell gan ymweld â gweithfannau eraill

- Ychwanegwch sylwadau ac awgrymiadau ychwanegol

8. ADBORTH

- Gofynnwch i bob hwylusydd/cadeirydd yr is-grŵp roi adborth o'r trafodaethau yn eu gweithfan - Cofnodwch allbynnau allweddol
- Beth sydd angen digwydd nesaf?
- Sut dylai allbynnau'r digwyddiad hwn gael eu cofnodi a'u defnyddio?
- Pwy sydd angen gwneud beth?

9. CASGLIADAU

- Sylwadau terfynol gan gyfranogwyr
- Penawdau, uchafbwyntiau a phethau annisgwyl
- Cyfle i unigolion gofrestru ar gyfer rhestr bostio ar gyfer is-grwpiau unigol a/neu'r Bartneriaeth.

10. GORFFEN A CHINIO RHWYDWEITHIO

Cyllideb

Fel arfer gellir cael mynediad at leoliad am ddim os yw'r awdurdod lleol yn rhan o'r broses o gynllunio'r Uwchgynhadledd Fwyd. Y gyllideb ar gyfer y bwyd yw'r brif gost fel arfer. Bydd hyn yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar hyd eich uwchgynhadledd. Mae cinio yn gyfle rhwydweithio gwyb, felly os allwch ei fforddio, byddem yn awgrymu darparu cinio, hyd yn oed os yw eich uwchgynhadledd yn para hanner diwrnod.

Bwyd

Uwchgynhadledd Fwyd yw hi! Felly, dyma eich cyfle i arddangos cynnyrch lleol ac i adrodd y stori o ble mae'r bwyd wedi dod. Rhwch broffil uchel i'r stori bwyd lleol, rhwch lwyfan i gynhyrchwyr lleol, busnesau bwyd neu wasanaethau arlwyio cymdeithasol. Defnyddiwch y cinio fel ffordd o gyfathrebu cyfoeth y system bwyd lleol – y paratoi, y cynhwysion, y gwasanaeth etc. Ystyriwch roi diolch yn gyhoeddus i'r rhai sydd wedi cynhyrchu, paratoi a gweini'r bwyd a'u gwahodd i siarad am eu rôl yn y pryd.

Lleoliad

Yn ddelfrydol, dylai'r lleoliad fod yn ddigon mawr i ymdopi'n hawdd â'r niferoedd. Fel arfer neuadd gymunedol / neuadd y dref. Peidiwch â mynd am rywle sydd â seddi sefydlog e.e. neuadd ddarlithio'r brifysgol neu ystafell neuadd y dref gyda byrddau sefydlog, oherwydd gall hyn greu cyfyngiadau difrifol o ran y cyfranogiad a'r gweithgaredd. Mae'n bwysig cael lle i symud o gwmpas, ac yn dibynnu ar drefn y rhaglen, efallai y bydd angen iddi fod yn ddigon mawr i alluogi trafodaethau ar wahân mewn gwahanol gorneli o'r neuadd. Meddyliwch am ble rydych chi'n mynd i fwyta ac a yw hynny'n iawn yn y brif neuadd neu a fydd angen ystafell ar yr ochr lle gellir dod â'r bwyd allan a'i glirio heb ymyrryd â phrif ofod yr uwchgynhadledd. Dydych chi ddim eisiau i'r sain gael ei foddi gan blatiau a chyllyll a ffyrn yn cael eu pentyrru!

Hyrwyddo

Fel arfer, caiff uwchgynhadleddau eu hyrwyddo drwy wahoddiad uniongyrchol, felly mae'n hanfodol creu rhestr dda o randdeiliaid a darpar gyfranogwyr yn ystod y cam cynllunio. Mapiwch eich rhanddeiliaid allweddol ar draws y 6 mater allweddol, ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac ar draws y system fwyd. Yn ogystal, mae'n syniad da gwahodd swyddogion etholedig, gallai hyn gynnwys cynghorwyr, meiri etholedig, arweinydd y cyngor neu ddeiliaid portffolio sydd â briff perthnasol.

Staffio

Mae'n debygol y bydd angen ambell berson ychwanegol arnoch ar y dydd i gyfeirio pobl, cofrestru pobl sy'n cyrraedd, gweini diodydd, tynnu lluniau, cyfarch a chwrdd â siaradwyr allweddol a rhedeg o gwmpas yn gyffredinol!

Ar ôl hynny

Casglwch ganlyniadau'r dydd, eu didoli a'u trefnu cyn gynted â phosib a lledaenu'r canlyniadau i gyfranogwyr. Mae'n bwysig anrhydeddu buddsoddiad amser cyfranogwyr ac i annog eu cyfranogiad parhaus.

Digwyddiad lansio'r bartneriaeth?

Mae'r digwyddiad lansio yn gyfle pwysig i roi cyhoeddusrwydd i'r bartneriaeth, y weledigaeth a'r cynllun gweithredu drafft ac i ddechrau tyfu eich dylanwad. Mae'r digwyddiad hefyd yn caniatáu i bartneriaid barhau i gyfrannu at y broses fanylach o gynllunio camau gweithredu – gan ddechrau o ddifri i bennu a phenderfynu ar flaenoriaethu amcanion, nodi gweithgareddau penodol sydd wedi'u hanelu at eu cyflawni a phenderfynu ar dulliau y gellir eu mabwysiadu i roi'r gweithgareddau ar waith. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw trwy ddigwyddiad lansio sydd wedi'i gynllunio a'i hwyluso'n dda a allai hefyd gynnwys lansio gwefan a logo'r bartneriaeth.

Cwestiynau

- Pwy yw darpar aelodau'r bartneriaeth?
- Pa mor glir yw pobl am weledigaeth a nodau'r Partneriaethau Bwyd?
- Pa mor bwysig yw'r Bartneriaeth Bwyd?
- Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth / nodau / amcanion / dulliau?
- Beth ddylai fod y gweithgareddau sydd o'r flaenoriaeth uchaf i gyflawni'r amcanion ac i gefnogi'r dulliau?
- Pwy ddylai fod yn gwneud beth – arwain y gweithgareddau?
- Beth yw barn / safbwyntiau partneriaid strategol allweddol?